



DISGRIFIAD SWYDD

Teitl:	Swyddog Cynorthwyol Cynnwys Digidol
Cyfeirnod Swydd:	01164
Math o contract/Oriau/CALI:	Llawn Amser (37 awr, 1.0 CALI), Cyfnod Penodol am 12 mis
Graddfa / Cyflog:	Graddfa 4 / £22,417 - £25,941 y flwyddyn
Lleoliad:	I'w drafod
Yn adrodd wrth:	Prif Swyddog Systemau Gwybodaeth

PRIF BWRPAS Y SWYDD

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sy'n cynllunio a monitro pob agwedd ar y sector Dysgu Cymraeg i oedolion – o lunio cyrsiau ac adnoddau i hyfforddiant tiwtoriaid, ymchwil a data, marchnata a chyfathrebu.

Mae'r Ganolfan yn gweithio gyda rhwydwaith o ddarparwyr, sy'n cynnal cyrsiau ar ei rhan mewn cymunedau ledled Cymru.

Mae cyrsiau ar gael ar wahanol lefelau: Mynediad (ar gyfer dechreuwyr), Sylfaen, Canolradd, Uwch a Hyfedredd, sydd ar gael i siaradwyr rhugl hefyd.

Mae strwythur y Ganolfan wedi ei rannu i dair cyfarwyddiaeth, sef:

- Cyfarwyddiaeth Dysgu ac Addysgu
- Cyfarwyddiaeth Cynllunio a Datblygu
- Cyfarwyddiaeth Marchnata a Chyfathrebu

Mae'r Ganolfan yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a'i chartrefu gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Am fwy o fanylion, darllenwch [Adroddiad Blynyddol](#) diweddaraf y Ganolfan. Mae modd dod o hyd i gwrs Dysgu Cymraeg unrhyw le yng Nghymru, a thalu am y cwrs hwnnw, ar [Safle Rhyngweithiol](#) y Ganolfan.

Mae'r Ganolfan wedi datblygu systemau dysgu digidol arloesol ac uchelgeisiol. Prif nod y swydd yw cefnogi hyrwyddo'r datblygiadau hynny, yn ogystal â chysiau Dysgu Cymraeg y Ganolfan yn gyffredinol, gan gynnig gwasanaeth cwsmer gwych i ddysgwyr.

PRIF DDYLETSWYDDAU

- Gweithredu a chyfrannu at ddatblygiad Strategaeth Cyfryngau Cymdeithasol y Ganolfan, gan fonitro ac ymateb i sylwadau a sgysiau ar draws yr holl gyfrifon cymdeithasol a rhoi gwasanaeth cwsmer gwych i ddysgwyr. Defnyddio llwyfannau i amserlenni cynnwys er mwyn creu llif cyson o newyddion a gwybodaeth amrywiol; dadansoddi, rheoli a newid amserlenni lle bo angen i optimeiddio ymweliadau.
- Sicrhau bod cynnwys y safle rhyngweithiol - dysgucymraeg.cymru - yn cael ei gadw'n gyfredol ar bob adeg, gan addasu a chynhyrchu cynnwys ysgrifenedig, graffeg a chlyweledol fel bo'r angen. Cydweithio gyda holl adrannau'r Ganolfan er mwyn sicrhau bod y safle yn ymateb i anghenion dysgwyr y Gymraeg.

- Defnyddio Google Analytics a dulliau eraill i helpu gwerthuso ymgyrchoedd ac adnabod arferion da sy'n arwain at gynnydd mewn gweithgaredd yn ogystal ag unrhyw welliannau. Paratoi adroddiadau misol.
- Bod yn effro i ddatblygiadau, llwyfannau a chyfleoedd digidol newydd a chynnig syniadau creadigol a gweithredu'r syniadau hynny.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gydnaws ac yn gymesur â'r swydd yn unol â dymuniad y Prif Swyddog Systemau Gwybodaeth.

DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

- Cyflawni pob cyfrifoldeb perthnasol o ran lechyd a Diogelwch
- Glynu wrth holl bolisiau a gweithdrefnau perthnasol y Brifysgol
- Bod yn barod i addasu i newid a meddu ar y gallu i ennill sgiliau a gwybodaeth newydd a pherthnasol trwy gymryd cyfrifoldeb priodol am eich datblygiad personol a phroffesiynol eich hun
- Cefnogi a hyrwyddo ymrwymiad y Brifysgol i gynaliadwyedd a chyflawni dyletswyddau mewn modd moesegol a chyfrifol
- Gweithredu'n unol â'r safonau a ymgorfforir yn y Safonau Iaith Gymraeg a bennwyd ar gyfer y Brifysgol

D.S. Hwn yw'r disgrifiad swydd sy'n gymwys ar hyn o bryd, ond mae'n bosibl y neilltuir dyletswyddau o bryd i'w gilydd sy'n briodol i'r raddfa a'r swydd nad ydynt o natur sylweddol barhaus i effeithio ar raddfa'r swydd.

MANYLEB YR UNIGOLYN		
	Hanfodol	Dymunol
Addysg a Chymwysterau	a) Cymhwyster addysgol addas	b) Cymhwyster mewn disgyblaeth berthnasol (neu'r profiad proffesiynol cyfwerth)
Profiad, Galluedd a Sgiliau	c) Profiad o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol d) Profiad o ddefnyddio systemau rheoli gwefannau h.y. 'Content Management System' e) Profiad o greu cynnwys digidol f) Profiad o weithio'n effeithiol fel unigolyn, fel rhan o dîm ac mewn partneriaeth ag eraill g) Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg – ar lafar ac yn ysgrifenedig h) Y gallu i gyflawni gwaith yn erbyn terfynau amser tynn i) Meddu ar sgiliau rhyngpersonol a chyfathrebu da gyda'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar bob lefel	j) Profiad o ysgrifennu a golygu cynnwys k) Profiad yn y maes marchnata a hyrwyddo l) Profiad o ddefnyddio meddalwedd Adobe CC neu debyg m) Profiad o ddefnyddio rhai gwasanaethau Google n) Meddu ar sgiliau graffeg
Gofynion eraill	o) Barod i deithio i fodloni gofynion sy'n ymwneud â'r swydd ac i weithio o amrywiol leoliadau pan fo angen	

Er eich lles eich hun, dylech nodi'n fanwl yn eich cais sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf a nodir. Fe'ch anogir i ddarparu enghreifftiau perthnasol a phenodol, (o'r gweithle, gwaith gwirfoddol neu waith yn y gymuned, neu unrhyw sefyllfa briodol arall) fel y gall y panel a fydd yn llunio'r rhestr fer weld yn glir ble mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i'r meini

prawf a nodir ar gyfer y swydd.